

## **Pwyllgor Diwylliant CC 14-02 p1**

**Dyddiad: 3 Gorfennaf 2002**

**Amser: 9.30am - 12.00pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol**

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**Papur Cefndir i Aelodau'r Pwyllgor Diwylliant,**

**3 Gorffennaf 2002**

**Hefyd yn berthnasol: Adroddiad Blynyddol 2000/01**

**Cynllun Corfforaethol 2002/03 – 2004/05**

**Gwefan [www.cllc.org.uk](http://www.cllc.org.uk)**

### **1 SWYDDOGAETH Y CYNGOR LLYFRAU**

.1 Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n gorff cenedlaethol, annibynnol ac iddo statws elusennol ac fe'i lleolir yn Aberystwyth. Sefydlwyd y Cyngor ym 1961 gyda chymorth ariannol gan yr awdurdodau lleol (yr unig gyfranwyr yn y dyddiau cynnar) a Chyngor Celfyddydau Cymru. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb Cyngor y Celfyddydau yn raddol i'r Swyddfa Gymreig rhwng 1990 a 1996.

.2 Swyddogaeth y Cyngor yw cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru (yn cynnwys awduron, cyhoeddwyr a llyfrwerthwyr) a hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a Chymreig ac mewn darllen yn gyffredinol. Er bod nifer o gyrfff ym maes addysg a'r celfyddydau'n ymwneud ag agweddau ar gyhoeddi, y Cyngor Llyfrau yw'r unig gorff

yng Nghymru sy'n ymwneud â holl ystod maes cyhoeddi, o lawysgrif yr awdur i ddosbarthu a hybu gwerthiant. Bu'r Cyngor yn gweithio'n ddyfal i wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

.3 Y mae tair prif agwedd i waith y Cyngor:

- darparu gwasanaethau i'r fasnach lyfrau – o ddarparu adroddiadau ar deipysgrifau a chynnig gwasanaeth golygyddol a dylunio i ddarparu gwasanaeth dosbarthu/ cyfanwerthu
- trefnu gweithgarwch i hybu darllen a llythrennedd – gwaith a wneir gan Adrannau Marchnata a Llyfrau Plant y Cyngor
- dosbarthu grantiau i gyhoeddwyr (y Grant Cyhoeddi) ar gyfer llyfrau a chylchgronau Cymraeg i blant ac oedolion.

## 2 CYLLID

.1 Er bod y Cyngor Llyfrau'n gorff anstatudol, y mae'n cyflwyno Cynllun Corfforaethol yn flynyddol i'w gymeradwyo gan y Cynulliad ac mae'n ddibynnol ar gymorth grant i gyflawni ei swyddogaethau craidd. Hyd yn ddiweddar, deuai'r cymorth grant hwnnw o nifer o ffynonellau: Llywodraeth y Cynulliad, Awdurdodau Lleol Cymru (pob un yn unigol) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Roedd natur gymhleth ac ansefydlog yr ariannu yn broblem llwyddiant i gryn raddau. Wrth i'r Cyngor Llyfrau dyfu a datblygu, tyfodd yr ariannu mewn modd cymhleth a thameidiog a daeth yn fwyfwy anodd i gynnal y drefn yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996.

Cydnabuwyd y broblem gan y Pwyllgor Diwylliant, ac mae cofnodion 24 Ionawr 2001 yn nodi bod 'consensws bod y drefn bresennol yn or-fiwrocraidaidd a bod angen ei diwygio yn ystod cylch cyllido 2002/3'. Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Gweinidog i edrych i mewn i faterion cyhoeddi (Hydref – Rhagfyr 2001) i'r un casgliad a'r canlyniad oedd i'r Gweinidog benderfynu gweithredu i resymoli a symleiddio'r llwybrau cyllido. Oddi ar 1 Ebrill 2002 daw prif gyllid grant y Cyngor Llyfrau oddi wrth Llywodraeth y Cynulliad, fel a ganlyn:

<b>2002/03</b>	
Grant Craidd	£859,000 + £42,000 (ACCAC)
Y Grant Cyhoeddi	£873,000

Dylid nodi hefyd bod y Cyngor wedi bod yn dra llwyddiannus yn y blynyddoedd

diwethaf yn denu arian project ar gyfer cynlluniau ychwanegol. Y mae'r cyfanswm ar gyfer 2002/03 yn £213,256.

.2 Y mae agweddau ar waith y Cyngor nad ydynt yn derbyn unrhyw arian o'r pwrs cyhoeddus: er enghraifft Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor sy'n gweithredu fel uned fasnachol, hunangynhaliol. Y mae'r Ganolfan yn cyflenwi siopau llyfrau ar draws Cymru a thu hwnt gan gynnig gwasanaeth dosbarthu diwrnod-wedyn i'w holl gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr. Unig incwm y Ganolfan yw'r gwahaniaeth rhwng y gostyngiad a ganiateir gan y cyhoeddwr a'r gostyngiad a roddir i lyfrwerthwyr (10% o bris gwerthu'r llyfr yn achos stoc transfer a ddelir ar ran prif gyhoeddwr Cymru).

.3 Amcangyfrifir bod cyfanswm costau gweithredu'r Cyngor ar gyfer cyflogau, gweinyddu a gweithgarwch (heb gymryd i ystyriaeth y Grant Cyhoeddi) yn £1.8 miliwn. Daw 41% o'r swm hwn o adnoddau'r Cyngor ei hun (h.y. incwm a grëir gan Adrannau'r Cyngor gan gynnwys ei Ganolfan Ddosbarthu). Daw 12% pellach mewn arian project o nifer o ffynonellau. Daw'r gweddill, sef 47%, ar ffurf arian craidd oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

### **3 SUT MAE'R CYNGOR LLYFRAU'N CAEL EI REOLI?**

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan ei Gyngor a'i Bwyllgor Gwaith. Cynrychiolir ystod eang o gyrff ym maes llenyddiaeth a diwylliant ar y Cyngor ynghyd â phob un o awdurdodau lleol Cymru. (Y mae'n bwysig nodi nad yw'r newid yn y trefniadau ariannu yn newid dim ar gynrychiolaeth yr awdurdodau lleol ar bwyllgorau'r Cyngor.) Ymddiriedir llawer o'r gwaith manwl i baneli ac is-bwyllgorau sy'n ateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwaith. Nid oes yr un o aelodau'r Cyngor na'i is-bwyllgorau'n derbyn unrhyw dâl heblaw costau. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd.

Cadeirydd y Cyngor yw Dr Lionel Madden, cyn-Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y Cyfarwyddwr yw Gwerfyl Pierce Jones. Mae gan y Cyngor staff o 45.5 (cyfateb i amser-llawn), y rhan fwyaf yn gweithio mewn nifer o adrannau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau i'r fasnach. Yr Adran fwyaf (14) yw'r Ganolfan Ddosbarthu.

### **4 RHAI DATBLYGIADAU DIWEDDAR**

#### **.1 Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi**

Bydd aelodau'r Pwyllgor Diwylliant yn ymwybodol o adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi, y cyfeiriwyd ato uchod, a gadeiriwyd gan y Dirprwy Weinidog, Delyth Evans, ar gais y Gweinidog, Jenny Randerson.

Roedd y Cyngor Llyfrau'n ddiolchgar i'r Gweinidog am benderfynu rhoi sylw penodol i faes cyhoeddi ac yn arbennig o ddiolchgar i Delyth Evans am drylwyredd yr ymarferiad ac am lwyddo i gael consensws ynglŷn â'r ffordd ymlaen, a hynny nid yn unig ymhlith aelodau'r Grŵp ond ar draws y sector yn gyffredinol.

Fel y gwyddys, bu i'r Gweinidog dderbyn yr adroddiad a'i argymhellion a chyhoeddwyd y byddai £250,000 o gyllid ychwanegol ar gael yn 2002/03 tuag at ddechrau gweithredu'r argymhellion.

Y mae'r Cyngor Llyfrau wedi ymrwymo i arwain yr ymdrechion i weithredu argymhellion y Grŵp dros y flwyddyn nesaf.

## .2 Cyhoeddi yn yr Iaith Saesneg

Un o'r pwyntiau a wnaed yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd yr angen i'r 'Cynulliad roi sylw yn y dyfodol i faterion sy'n ymwneud â'r diwydiant cyhoeddi yn ei gyfanrwydd, yn y Saesneg a'r Gymraeg'. Cyfeiriwyd hefyd at 'y gorgyffwrdd rhwng rôl Cyngor y Celfyddydau a gwaith y Cyngor Llyfrau [gan nodi] mai sgil-ffaith hanes yw sut y rhennir y cyfrifoldebau ar hyn o bryd'.

Yn fuan ar ôl i'r Grŵp gwblhau ei waith cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau bapur ymgynghorol: 'Ariannu Llenyddiaeth: Adolygiad Strwythurol'. Mae'r papur hwn yn argymhell trosglwyddo'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau Cyngor y Celfyddydau ym maes llenyddiaeth i ddau sefydliad: y Cyngor Llyfrau a'r Academi, gyda'r Cyngor Llyfrau i gymryd drosodd holl gefnogaeth bresennol Cyngor y Celfyddydau i gyhoeddwy.

Pe gweithredid argymhellion y ddogfen hon, byddai'r Cyngor Llyfrau am y tro cyntaf yn gyfrifol am ddosbarthu grantiau ar yr ochr Saesneg yn ogystal â'r ochr Gymraeg (noder bod gwasanaethau'r Cyngor eisoes ar gyfer y ddwy iaith; mae'r Grant Cyhoeddi, fodd bynnag, yn gyfyngedig i'r Gymraeg). Mae oblygiadau'r papur yn bellgyrhaeddol: byddai gweithredu'r argymhellion yn creu cyfle am y tro cyntaf i ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yn ei grynsyth a hynny mewn modd strategol.

## .3 Ymchwil a datblygu

Yn ystod 2001 llwyddodd y Cyngor Llyfrau i ddenu grantiau oddi wrth Uned Polisi Economaidd y Cynulliad i baratoi adroddiadau cynhwysfawr ar ddau faes allweddol gyda golwg ar ddatblygu'r fasnach lyfrau yng Nghymru:

- Technoleg Gwybodaeth ym meysydd marchnata a dosbarthu
- Cyhoeddi digidol.

Y mae'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi a'u cylchredeg yn eang a chynhaliwyd dau gyfarfod agored i'w trafod. Unwaith eto, braf oedd gweld awydd cryf ymhlith y sector i fanteisio ar gyfleoedd newydd a chonsensws o blaid y camau nesaf. Bydd Cynllun Corfforaethol nesaf y Cyngor yn cynnwys rhai o'r elfennau hyn.

#### .4 Hybu gwerthiant

Dyma rai datblygiadau diweddar:

- Y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydweithio â gwahanol garfanau'r diwydiant i greu strategaeth farchnata gynhwysfawr, gytûn ar gyfer y blynyddoedd nesaf.
- Penodwyd Swyddog Marchnata (Dramor) ym mis Ebrill gyda'r bwriad o ddenu mwy o sylw i lyfrau o Gymru mewn gwledydd tramor.
- Yn nes adref, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Literary Publishers Wales, consortiwm o gyhoeddwyr, er mwyn ceisio datblygu'r farchnad ar gyfer llenyddiaeth Saesneg o Gymru.
- Mae *gwales.com* yn parhau i gael ei ddatblygu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gosodwyd 600 o adolygiadau ar y system. O hyn ymlaen hefyd, bydd cyfle i ddarllenwyr gynnwys sylwadau ar unrhyw lyfr a gynhwyswyd ar *gwales.com*. Mater arall sydd dan ystyriaeth yw'r posibilrwydd o werthu'n uniongyrchol trwy *gwales.com* yn ogystal â thrwy siopau llyfrau.
- Mae ymdrechion i ehangu'r manau gwerthu'n parhau e.e. trwy archfarchnadoedd. Yn gyfochrog â hynny, cynigir cymorth i lyfrwerthwyr bychain, annibynnol i ehangu cylch eu cwsmeriaid.

#### .5 Hybu darllen a llythrennedd

Ystyrir hybu darllen a meithrin llythrennedd yn ganolog i genhadaeth y Cyngor Llyfrau, ac er bod pwysau cynyddol i ganolbwyntio ar farchnata caletach sy'n arwain at gynnydd mewn gwerthiant ni ellir gorbwysleisio'r angen am feithrin yr arfer o ddarllen a hynny ymhob carfan o gymdeithas.

Roedd y Cyngor yn falch iawn o'r cyfle i gydlynu gwaith y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru ym 1998/99. Oddi ar hynny, cafwyd arian project i drefnu Diwrnod y Llyfr blynyddol ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd o nerth i nerth. Eleni cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes bod y grant ar gyfer y gweithgarwch hwn i gynyddu o £50,000 i £75,000 er mwyn cynyddu'r partneriaethau sy'n cyfrannu at fwrlwm a llwyddiant yr achlysur. Un enghraifft o bartneriaeth o'r fath yw gweithgarwch y Carnifal Darllen a drefnwyd gan LaunchPad, ymddiriedolaeth o Loegr, ar gyfer llyfrgelloedd y llynedd, a braf oedd gweld pob awdurdod llyfrgell yng Nghymru yn cymryd rhan am y tro cyntaf.

O fewn cyllid craidd y Cyngor eleni trefnwyd cynllun peilot i hybu darllen ymhlith pobl ifainc, yn enwedig bechgyn (Llyfrau sy'n Taro Deg) a chynllun peilot ar y cyd â thri awdurdod llyfrgell i sefydlu cylchoedd darllen.

## 5 I GRYNHOI

Er bod gan sawl sefydliad arall gyfrifoldebau am agweddau ar faes llyfrau a chyhoeddi, y Cyngor Llyfrau yw'r unig gorff yng Nghymru sy'n ymwneud â holl rychwant cyhoeddi

a'r Cyngor, yn sicr, yw'r unig gorff cenedlaethol yng Nghymru sy'n ymrwymedig i weithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill i hybu darllen a llythrennedd ym mhob carfan o'r gymdeithas.

Gellir crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y tymor hir fel a ganlyn:

- cynorthwyo i sicrhau bod dewis helaeth o lyfrau o'r safon uchaf, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i ateb gofynion pob sector o'r gymdeithas yng Nghymru, a hynny mewn amgylchfyd sy'n newid yn gyson
- hybu darllen a llythrennedd yn egnïol fel bod pob sector o'r gymdeithas a phob oedran yn dod yn ymwybodol o fudd darllen, gan gynnwys meithrin gwell sgiliau gogyfer â gwaith a datblygiad personol a hefyd o ran pleser
- cryfhau strwythur cyhoeddi a llyfrwerthu yng Nghymru fel y gall busnesau bach a chanolig dyfu'n fentrau deinamig, mwy eu maint
- annog a chynorthwyo cyhoeddwr i ddefnyddio'r dechnoleg fodern i farchnata llyfrau'n effeithiol drwy gyfrwng e-fasnach, a thrwy hynny gyrraedd cynulleidfa fyd-eang a hynny yn ei dro yn gymorth i gryfhau delwedd Cymru dramor
- annog a chynorthwyo cyhoeddwr i archwilio dulliau newydd o gyhoeddi fel bod datblygiadau arloesol yn cydreddeg â dulliau traddodiadol.

Y mae digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi rhoi hwb mawr ymlaen i'r sector cyhoeddi yng Nghymru ac i'r Cyngor Llyfrau fel sefydliad ac rydym yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth y Cynulliad am yr ymddiriedaeth a ddangoswyd ynom. Ein braint a'n cyfrifoldeb ni fydd parhau i frwydro dros welliannau a datblygiadau a chydweithio'n egnïol gyda'n partneriaid, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, i greu diwydiant cyhoeddi blaengar a ffyniannus yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## FFEITHIAU A FFIGURAU

Dyma rai ystadegau ynglŷn â gweithgarwch 2001/02.

- **GWERTHIAN**

Gwerthwyd 645,647 o eitemau ym 2001/02 trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau, gwerth £3,750,666 (gros). Er bod cyfanswm y gwerthiant 10% yn is na'r ffigwr cyfatebol y llynedd, roedd hynny i'w ddisgwyl gan fod ffigurau 2000/01 yn cynnwys gwerthiant eithriadol o uchel y llyfr emynau cydenwadol newydd, *Caneuon Ffydd*. Ffactor arall a effeithiodd ar y gwerthiant oedd clwy' y traed a'r genau.

Bu cynnydd cyson yn ffigurau gwerthiant y Ganolfan Ddosbarthu dros y degawd

diwethaf, ac mae'r gwerthiant wedi dyblu oddi ar 1990. Dosberthir y cynnyrch i dros 800

o leoedd ar ran 350 o gyhoeddwyr.

- **GWASANAETH GOLYGU**

Rhoddodd yr Adran Olygyddol wasanaeth i 215 o lawysgrifau gan 22 o gyhoeddwyr.

- **GWASANAETH DYLUNIO**

Rhoddodd yr Adran Ddylunio wasanaeth i 122 o deitlau gan 13 o gyhoeddwyr.

- **GWASANAETHAU I YSGOLION**

- **Clybiau Sbondonics a Sbri-di-ri**

Gwerthwyd 26,857 o lyfrau i 17,044 o brynwyr trwy Glybiau Sbondonics a Sbri-di-ri.

### **Cynllun Ysgolion**

Ymwelodd pedwar Swyddog Ysgolion y Cyngor â 914 o ysgolion gan gasglu archebion am lyfrau a deunydd addysgol gwerth £400,645.

- **CYNLLUN YMESTYN**

Trwy gymorth y Cynllun Ymestyn, trefnodd llyfrwerthwyr 311 o achlysuron gwerthu ychwanegol gan werthu gwerth £110,854 o lyfrau.

- **DOSBARTHU'R GRANT CYHOEDDI**

Gyda Grant Cyhoeddi o £623,704 ar gyfer cynorthwyo cyhoeddi llyfrau a chylchgronau Cymraeg, rhoddwyd grantiau cyhoeddi i 210 o lyfrau a 9 o gylchgronau.